# y dinesydd

Hydref 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 231

# Bedydd Cenedl Newydd

*Beca Brown*, y newyddiadurwraig a'r cyflwynydd teledu, sy'n ail-fyw ei phrofiadau noson y bleidlais ar ddatganoli.

Sawl gwaith fedrwch chi fynd i uffern ac yn ôl mewn pedair awr? Roedd y tocyn trên i'r Alban wedi'i fwcio, wedi'i ganslo ac wedi'i fwcio unwaith eto - dydi hi ddim yn natur y Cymry i wneud bywyd yn hawdd.

Roedd y nerfau'n rhacs wrth i griw ohonon ni gasglu o gylch y teledu, gan gyfnewid Peter Snow a'i sgrîn Teletubbie-aidd am Dafydd Iwan vs Rod Richards. Newyddion drwg disgwyliedig wrth gwrs am y ddwy awr gyntaf, ond gydag Ynys Môn daeth y tawelwch, a gyda Chaerdydd y dagrau.

Er nad ydy Pontcanna yn gynrychiadol o weddill y ddinas - gormod o gyfryngis a nashis - roedd y plastar o bosteri 'Ie' wedi codi'r hyder acw. Ond pan mae prifddinas yn gwadu'i gwlad ei hun, does 'na ddim geiriau i ddisgrifio'r siom, y cywilydd a'r hunan-gasineb.

Roedd rhaid gadael yr ystafell deledu yn fuan wedyn, ac yn nhawelwch y gegin dyma ystyried goblygiadau buddugoliaeth i'r 'Na'. Pwy sydd am berthyn i wlad sy'n gwadu'i bodolaeth ei hun? Beth fyddai bod yn Gymro yn ei olygu yn wyneb datganiad o'r math? Beth fyddai fy ateb i'r cwestiwn, 'O ble wyt ti'n dod?' Yno yn y gegin ro'n i'n ddi-genedl, yn ddi-bobl ac yn diawlio.

Roedd canlyniad Caerfyrddin ar fin torri, a dyma lusgo fy hun yn ôl i'r ystafell deledu i wylio act ola'r Hunanladdiad. Ond roedd wyneb y gohebydd yn dweud stori arall... daliodd hanner Cymru ei hanadl mewn anghrediniaeth... oedd 'na obaith o hyd? Ac wedyn, ymhen eiliadau, roedd y chwyldro ar y teledu. Roeddwn i'n gwrando'n rhy astud i fedru deall geiriau'r swyddog, ond wrth i'r ystafell gyfan ffrwydro doedd dim i'w wneud ond ffrwydro efo hi. Allan â ni i'r Park Hotel. Roedd y glaw yn gymysg â'r siampên, a rhyddhad a gorfoledd yn dawnsio tango ar y tarmac. Cenedl yr unfed awr ar ddeg.

Doeddwn i ddim am i'r noson orffen. Yno yng nghyntedd y Park doedd 'na ddim ddoe na fory, dim ond un foment felys nad oedd byth am ddod i ben, a dyma wagio'r diferion olaf o botel y fuddugoliaeth.

Wrth i bobl Caerdydd godi i fynd i'w gwaith dyma droi am adre, yn freuddwydiol fodlon, yn wlyb socian, drwy'r glaw. Glaw mân. Glaw cyfrwys sy'n gwlychu'n ddistaw bach. Glaw a laddai arglwyddi, ond a fedyddiodd genedl newydd sbon.

Cyhoeddir yr erthygl hon gyda chaniatâd y *Western Mail*.

## GŴYL DDRAMA UCHELGEISIOL

Cynhelir yr Ŵyl Ddrama CYMRU HEB FFINIAU yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd yn ystod mis Tachwedd 1997 i geisio cryfhau llais y theatr Gymraeg yng Nghymru a'r tu hwnt. Dyma'r Ŵyl gyntaf o'i bath yn Ne Cymru ac mae Dalier Sylw'n cydlynu'r Ŵyl ar ran y gymuned theatr Gymraeg.

Cynhelir cyfres o berfformiadau amrywiol yn ystod y mis, a gobeithir trefnu seminarau a gweithdai yn ogystal. Ar 22-23 Tachwedd cynhelir perfformiadau gweithdy gan actorion Cymraeg o dan gyfarwyddyd Branko Brezovec o Groatia, cyfarwyddwr theatr rhyngwladol cydnabyddedig.

Dyma restr o'r perfformiadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Tachwedd | ANDORRA gan Max Frisch | Theatr Powys |
| 7-8 | Tachwedd | Y COED gan David Mamet - mewn ymarfer | Theatrig |
| 9-10 | Tachwedd | SIWAN gan Saunders Lewis | Theatr y Dyfodol |
| 12-13 | Tachwedd | DINAS BARHAUS gan W.S. Jones | Theatr Bara Caws |
| 14-15 | Tachwedd | ROWND Y BYD MEWN LORI gan Sera MooreWilliams | Arad Goch |
| 20-22 | Tachwedd | MAOYSATA gan Sera Moore Williams | Dalier Sylw |
| 22-23 | Tachwedd | ELECTRA - perfformiad yn dilyn gweithdy | Branko Brezovec |
| 24-26 | Tachwedd | DROS Y GARREG gan Mari Rhian Owen | Arad Goch |
| 26-27 | Tachwedd | EDE HUD gan Sharon Morgan | Rhosys Cochion |
| 29-30 | Tachwedd | Gweithdai | Theatr Adlais |

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:
**Elinor Thomas**, Dalier Sylw, Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd
Ffôn: 01222 236650 Ffacs: 01222 236651 e.bost: dalsylw@dircon.co.uk
*neu* **Esyllt Lord**, Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd,
Ffôn: 01222 396061 Ffacs: 01222 395332.

## Pennaeth Plas Mawr

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Geraint Rees, un o ddirprwyon Glantaf ar hyn o bryd, ar gael ei benodi yn brifathro cyntaf Ysgol Plas Mawr, yr ail ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd. Bydd yr ysgol newydd hon, fydd yn cael ei lleoli yn adeiladau presennol Glantaf Isaf, yn agor ym Medi 1998. Dymunwn bob hapusrwydd i Mr Rees wrth iddo ymgymryd â'r swydd allweddol bwysig hon.



Geraint Reed, y Prifathro newydd, y tu allan i Ysgol Plas Mawr, Tyllgoed. *Llun: Robin Griffiths*

# Y Dinesydd

**Hydref 1997, Rhif 231.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 20 Hydref:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S.E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 578106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

# CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 163** **Hydref 1997**



**AR DRAWS**

1. Un o'r ddau fath o ieuenctid oedd yn bodoli, yn ôl *Rhodd Mam*. (5,2)
5. Un sydd ag arian sy'n medru gwneud ffrwd go fawr. (7)
9. 'Yr Wyddfa a'i chriw.' (5)
10. Mae'n gadael i'w gartre droi yn furddun, er ei fod yn cymryd arno i foli ei dad. (9)
11. Ar gerdyn a gefais daeth yr hanes am yr hyn a ddistrywiodd dinas Los Angeles. (9)
12. Ffawd y gwelltyn, fel y'i cofnodir gan Eseia ym meibl yr esgobion. (5)
13. Mae'n cymryd ond ychydig i Owain dderbyn tramgwydd. (5)
15. Gwnaeth Ann de o'r us, er hyned ydyw. (9)
18. Bonion isaf y goeden. (9)
19. Yr arian a gewch yn ôl gan y dewin. (5)
21. Prif gynnyrch Llanelli a'r cylch. (5)
23. Cerddoriaeth ddi-lais yw hyn. (9)
25. Mi a roddaf drefn ar deimladau cryfaf Ann. (9)
26. Y marciau a wnewch. (5)
27. Hwn a barodd lonni i Lisi o'r newydd. (7)
28. Nid oes arwyddocâd iddo. (7)

**I LAWR**

1. Tipyn o'r annifyrrwch i'r rhai sy'n credu mewn trefn (T.H.P-W.)(7)
2. Un diarhebol felly oedd Job. (9)
3. Y gath fawr streipiog. (5)
4. Rhoddi hawl i'r rhai sy'n llywodraethu. (9)
5. Gair ar bapur y clywaf ei daro. (5)
6. Tref ar y ffordd i Rosslare. (9)
7. Trefn y fwydlen. (5)
8. Rhywbeth a wnes â chyfarfod, â thun, ac â llythyr. (7)
14. Felly y tynnodd ei ddillad. (9)
16. Mi dybiaf mai hwn oedd yr olaf o'r disgyblion. (9)
17. Fe ddaru di lwgu. (9)
18. Un barus sydd felly. (7)
20. Cynllunnir siâp newydd i'r tŷ dilun yr olwg. (7)
22. Mesur tir er eich mwyn. (5)
23. Byddai yn arswydo. (5)
24. Y dydd all fod yn rhy hwyr. (5)

**Cystadleuaeth Rhif 162**

Daeth deuddeg ymgais i law a phump ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r pentwr oedd Mrs Gwenda M. Hopkins, 55 Three Arches Avenue, Llanisien. Daeth yr atebion cywir eraill oddi wrth: Margaret Jones, Rhiwbina; Marged Davies, Llandaf; Grace Farthing, Y Barri; Heledd Hall, Treganna.

**Cystadleuaeth Rhif 163**

Pob ymgais i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 20 Hydref os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Ysgoloriaethau i Awduron a Chyfieithwyr

Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei fod am gynnig ysgoloriaethau y flwyddyn nesaf eto i gefnogi ac i annog awduron profiadol a rhai newydd i ganolbwyntio ar eu gwaith ysgrifennu am gyfnod. Croesewir ceisiadau oddi wrth awduron a chyfieithwyr sydd yn awyddus i ysgrifennu yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn 1 Ebrill 1998. Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 19 Rhagfyr 1997. Ceir ffurflenni cais a manylion pellach oddi wrth y Swyddog Llenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF1 3NX (Ffôn: 394711, Ffacs: 221447).

## Clwb Gwawr Treganna

Mae clwb newydd i ferched wedi dechrau yn Nhreganna. Os am ddod, ffoniwch Bethan Anwyl ar 383232 neu Manon Rhys ar 216503.

## Merched y Wawr

Dyma restr o ganghennau Merched y Wawr nad ymddangosodd yn *Y Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro*:

**Merched y Wawr Llanbedr-y-fro** - cyfarfod ar y drydedd nos Fawrth o bob mis yn Festri Bethania, Pendeulwyn am 7.30 p.m. Ffoniwch Audrey Lake am fanylion ar 593776.

**Merched y Wawr Y Garth** - cyfarfod ar yr ail nos Fercher o bob mis mewn lleoliadau amrywiol. Ffoniwch Margaret Lloyd Hughes am fanylion ar 891351.

Yn wahanol i'r amserau a gyhoeddwyd yn y *Cyfeiriadur* a wnewch chi nodi'r canlynol:

**Clwb Gwawr Radur** yn cyfarfod **ar yr ail nos Iau o bob mis**. Ffoniwch Bethan Vaughan Cartwright am fanylion ar 843422.

**Merched y Wawr, Radur** yn cyfarfod ar yr **ail nos Fercher o bob mis**. Ffoniwch Brenda Jones am fanylion ar 842946.

## Cymrodorion y Barri

Mae Cymdeithas Cymrodorion y Barri yn cwrdd ar y drydedd nos Fawrth ym mhob mis yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin am 7.15 yr hwyr. Mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu ar gyfer tymor 1997-1998. Bydd y cyfarfod nesaf ar 21 Hydref pan ddisgwylir John Owen Huws, Sain Ffagan i annerch. Edrychwch yn y calendr am fanylion ynghylch gweddill y rhaglen.

## Vernon Pugh yn gorffen fel Cadeirydd

Wedi pedair blynedd fel Cadeirydd Undeb Rygbi Cymru penderfynodd **Vernon Pugh** beidio â sefyll eto fel Cadeirydd yng nghyfarfod yr Undeb ym mis Medi. Bargyfreithiwr ydyw wrth ei alwedigaeth ac yn frodor o Lanaman ond y mae'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach. Mae'n dal yn Gadeirydd y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol ac yn un o gyfarwyddwyr Bwrdd Cwpan Heineken Ewrop. Bu'n ddylanwadol iawn yn yr ymdrech i foderneiddio peirianwaith Undeb Rygbi Cymru ac ef yn anad neb a berswadiodd y Bwrdd Rhyngwladol i wneud y gêm yn broffesiynol. Ar ben hyn bu'n gyfrifol am sicrhau y chwaraeir Cwpan Rygbi'r Byd yng Nghymru yn 1999.

## Cerflun Aneurin Bevan

Beth amser yn ôl, difrodwyd rhan o gerflun Aneurin Bevan yn Heol y Frenhines gan lori lanhau'r strydoedd ac mae ymgyrchu wedi bod i adfer y sylfaen. Dethlir canmlwyddiant genedigaeth Aneurin Bevan ym mis Tachwedd. Mae nifer o'r farn y dylid symud y cerflun i le mwy amlwg, iddo gael mwy o barch gan y cyhoedd na wyddant ddim am yr hyn a gyflawnodd.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Beti a Benni Harries, 6 Lakeside, Caerdydd. Collodd Beti ei mam yn ddiweddar ar ôl cystudd blin.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 17 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Golygu Kate!' gan Dr Harri Pritchard-Jones, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Mercher, 22 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Graham Thomas yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Llun, 3 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Blwyddyn Arglwydd Faeres Caerdydd.' Sgwrs gan Ray Phillips, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mercher, 5 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Edwin Lloyd Jones yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Gwener, 7 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Euros Evans yn neuadd Tabernacl, Yr Ais, am 7.15p.m.

**Iau, 13 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Llais yr Ifanc (Hawl i Holi), yng nghapel Bethel, Rhiwbina am 7.30 p.m.

**Gwener, 14 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Taith o Gwmpas Caerdydd.' Sgwrs gan Arthur Bowen, yn festri Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 15 Tachwedd**
Ysgol Undydd ar y testun 'Patagonia – Ddoe, Heddiw ac Yfory?' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, rhwng 10.30 a.m. a 4.00 p.m. Darlithydd: Dr Robert Owen Jones. Tâl: £11. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**Mawrth, 18 Tachwedd**
Cymrodorion y Barri: Sgwrs ar y Wladfa gan Dilys a Cyril Thomas, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15p.m.

**Mercher, 19 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Dr John Morgan yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Mercher, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs am Uganda gan Richard Brunt, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Iau, 20 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 p.m., i ddechrau bwyta am 7.30 p.m. Gŵr gwadd: Gwynedd O. Pierce.

**Gwener, 21 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Yr Arlunfa Gymreig: Betws-y-coed a Byd Celf Cymru, 1844-1914' gan Peter Lord, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 24 Tachwedd**
Cell Cymdeithas y Cymod: 'Cofio Tegla – Yr Heddychwr' gan Huw Ethall, yng nghapel Salem, Treganna am 7.30 p.m.

**Llun, 1 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Blas Nadolig', yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mercher, 3 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Garwyn Davies yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Gwener, 5 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins) yn nghapel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Casgliad at Apêl Ymchwil Ysbyty Felindre.

**Sadwrn, 6 Rhagfyr**
'Sêr yn Salem', yng nghapel Salem, Treganna am 7.30 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## CWRS HYFFORDDIANT I DIWTORIAID

Bydd Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Cymru Caerdydd yn cynnal cwrs hyfforddi i diwtoriaid yn y Ganolfan ar 21 a 22 Hydref ac 8 Tachwedd. Mae ar gyfer Cymry Cymraeg a dysgwyr profiadol. Am ragor o fanylion cysylltwch â Richard Lewis, Canolfan Dysgu Cymraeg, 42 Park Place, Caerdydd (01222-874710).

## Côr Merched Canna

Mae'r côr merched brwdfrydig ac egnïol yma wedi'i sefydlu ers rhyw bedair blynedd bellach, ac mae hwyl a chymdeithasu, yn ogystal â chanu a chystadlu, yn rhan annatod a phwysig iawn o'r côr unigryw hwn.

Bellach mae tua 45 o aelodau yng Nghôr Merched Canna - y merched yn gymysgwch o feddygon, athrawon, mamau llawn amser, ysgrifenyddesau, cyfreithwyr, swyddogion prawf, rhai yn gweithio i'r cyfryngau, i'r Eisteddfod Genedlaethol a.y.y.b.! Lobscows go iawn felly! Cofiwch, os hoffech chi ymuno â'r criw lliwgar yma, neu os hoffai un o'ch ffrindiau hwyrach, mae croeso i chi ddod draw i Festri Capel Salem (yn Nhreganna) bob nos Lun am 7.30 p.m. Rwy'n addo y cewch chi dipyn o sbort yn ogystal â chanu Cerdd Dant, canu clasurol, gwerin a chanu ysgafn!




Mae'r côr wedi cael cryn lwyddiant yn barod. Mae'n cystadlu yn flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac wedi ennill y 3edd gwobr, yr 2il wobr ddwywaith a'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y côr merched agored mewn pedair blynedd o gystadlu, ac wrth gwrs, fe fydd yn rhaid cefnogi Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr y flwyddyn nesaf!

Rydym yn hoff iawn o gynnal cyngherddau ar hyd a lled y wlad - mae'r côr eisoes wedi perfformio mewn nifer o gapeli ac eglwysi yma yng Nghaerdydd, ac wedi teithio i Lundain a Chaerloyw i ddiddanu y Cymdeithasau Cymraeg yno. Mae ardal Aberteifi yn agos iawn at ein calonnau fel côr - rydym yn cefnogi'r Eisteddfod yno ym mis Mehefin, ac wedi bod yn ddigon ffodus i ennill y côr merched agored yno eleni mewn cystadleuaeth frwd iawn, ac yn agos iawn iawn at ennill Côr y Corau yn Aberteifi hefyd. Gwell lwc y tro nesaf efallai!




Mae'r côr yn hynod o brysur y tymor hwn. Mae'r Ŵyl Gerdd Dant yn prysur agosáu - trip fach lan i Aberystwyth fydd hi eleni ar 1 Tachwedd, gan gystadlu yng nghystadleuaeth y Côr Cerdd Dant agored, a rhaid fydd aros dros nos wrth gwrs i wneud penwythnos ohoni! Ar 5 Tachwedd mae cyngerdd gennym yn Neuadd y Ddinas, ac yna, troi i fyd y teledu a'r gyfres 'Llwyfan', lle rydym yn perfformio gyda'r bonheddwr Dafydd Iwan. Cyngerdd o gerddoriaeth Nadolig fydd ar y gweill yng Nghapel Ebeneser ar 9 Rhagfyr, ac eisoes mae cyngherddau wedi'u trefnu ym Mhen-y-bont a Llanbedr Pont Steffan ar ddechrau'r flwyddyn. Felly, mae digon o heyrn yn y tân i'n cadw ni i gyd allan o ddrygioni!

Mae diddordeb gennym mewn mynd allan i ysbytai a chartrefi hen bobl yn y dyfodol agos, ac i gynnal mwyfwy o gyngherddau yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Delyth Medi, (01222) 254468, a chofiwch, mae croeso i aelodau newydd!

**Delyth Medi Jones**

* * * * * * * *

## Dau o sêr y dyfodol?

Mae Ioan Gruffudd, cyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf a RADA wedi cael ei ddewis i actio rhan Horatio Hornblower mewn drama gyfres gan ITV. Bydd hefyd yn actio mewn ffilm epig am y *Titanic*. Mae eisoes wedi ymddangos ar y teledu. Bu yn y gyfres sebon, *Pobol y Cwm* pan oedd yn dair ar ddeg oed. Ei dad yw Peter Griffiths, prifathro Ysgol Gyfun Llanhari.

Seren arall yw Katell Keinig, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen. Dechreuodd ei gyrfa'n bysgio ar Yr Ais, Caerdydd bob dydd Sadwrn a bu'n ymddangos nifer o weithiau yng Nghlwb Ifor Bach. Bu'n teithio o gwmpas Prydain wedyn a'i halbwm cyntaf oedd 'O Season of Castles' yn 1994 ac ymddangosodd ei hail albwm, 'Jet' ym mis Gorffennaf eleni. Daw ei mam, Judith Pritchard, yn wreiddiol o Gaerdydd a bu ei thaid yn ddarlithydd mathemateg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Mae Katell a'i chanu gwefreiddiol yn boblogaidd iawn yn yr Unol Daleithiau.

## Esblygiad, ceffylau a'r Mabinogion

Yn ddiweddar cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru y gyfrol *Alfred Russel Wallace – Gwyddonydd Anwyddonol* gan Dr R. Elwyn Hughes, Pen-tyrch, sy'n trafod gwyddonydd o'r ganrif ddiwethaf a oedd â chysylltiadau agos â Chymru ac a ddatblygodd ddamcaniaeth esblygiad yn gyfamserol â Darwin, ond yn llwyr annibynnol arno.

Cyfrol arall a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr un wasg yw'r casgliad diddorol o erthyglau, *The Horse in Celtic Culture*. Un o olygyddion y gyfrol honno yw Dr Sioned M. Davies, Uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd. Da deall hefyd fod cyfrol bwysig Dr Davies, *Crefft y Cyfarwydd: Astudiaeth o Dechnegau Naratif yn y Mabinogion*, wedi ennill un o wobrau Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru.

## Gwobr arall i Gareth

Cyhoeddodd Cyngor Llyfrau Cymru fod Gareth F. Williams, o Landdunwyd ger y Bont-faen, wedi ennill Gwobr Tir na n-Og ar gyfer llyfr gorau'r flwyddyn i blant ac eithrio ffuglen gyda'i lyfr, *Dirgelwch Loch Ness*. Dyma'r ail dro i Gareth Williams ennill un o Wobrau Tir na n-Og, gan iddo ennill y wobr am ffuglen orau'r flwyddyn yn 1991 gyda'i nofel *O Ddawns i Ddawns*.

## Colli Canwr

Bu farw Mr Ken Pugh, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd ddiwedd Awst. Hyd ei ymddeoliad, bu'n aelod o Gorws y Cwmni Opera Cenedlaethol, a chanodd y Corws yr emyn 'Mi glywaf dyner lais' yn ei gynhebrwng. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w wraig, Eirlys, ei ferch Sallie, a gweddill y teulu.

---

Annwyl Olygydd,

Mae hi mor hyfryd clywed am gynnydd yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Bob tro y bydd Ysgol Gymraeg newydd yn agor, mae hi'n rhoi gwefr i mi.

Yn un o blant y ddinas, rwyf erbyn hyn wedi ymgartrefu yng nghefn gwlad Ceredigion. Cymraeg yw'r iaith a glywir amlaf gyda llawer o'n cymdogion, yn yr ysgol a'r Ysgol Sul, ac yn siop y pentref. Ond mae'r cefn gwlad bellach o dan fygythiad newydd gan fod swyddfeydd post aml i bentref ar werth. O golli'r Swyddfa Post/Siop, mae pentrefi'n edwino. Os cymerir nhw gan bobl ddi-Gymraeg, mae iaith y pentref yn dechrau newid.

Dyma gyfle, felly i bobl o argyhoeddiad, sy ddim yn ofni gwaith caled, i wneud rhywbeth cadarnhaol i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,
**Anne C. Uruska**, Llangwyryfon

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## MINNY ST.

"Llawenhewch gyda'r rhai sy'n llawenhau, ac wylwch gyda'r rhai sy'n wylo". (Rhuf. 12:15). Dyna yn sicr fu ein hanes fel Eglwys ar y Sul cyntaf ym mis Medi.

Wedi mis o gydweithio hapus a bendithiol gydag aelodau Eglwys y Crwys, llawenydd oedd cael ein gweinidog a'i briod, y Parchg. Ieuan a Mrs Eunice Davies, yn ôl yn ein plith. Llawenydd pellach oedd cael cwmni cynifer o deuluoedd yn yr oedfa foreol gydag wyth o blant yn arwain y gwasanaeth a llond sêt fawr yn dweud adnodau. Yna cawsom dystio, fel cynulleidfa, i fedydd merch fach Meurig ac Eve Evans - Awen Beca Gallop, chwaer newydd Betsan ac Elian ac wyres Margaret a Gwynne Evans. Llawenydd hefyd oedd deall am eni mab, Emyr Roderick Owen i Jennifer (merch Dilys Smith) a David Rees. Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

A ninnau yn dod at ein gilydd o gylch Bwrdd y Cymun yn yr oedfa hwyrol, ein braint oedd cael cydnabod yn ddiolchgar fywyd, gwaith a chyfraniad aelod ffyddlon a mawr ei barch led-led Cymru, y Parchg. Ddr. Dewi Eirug Davies, fu farw ddechrau Awst. Cawsom gip ar nifer o agweddau o'i fywyd wrth i'r gweinidog dalu ei deyrnged bersonol ef i "Dewi". Cofiwn am Huw ac Aled Eirug a'u teuluoedd ynghyd â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ein braint fel Eglwys yw rhannu ym mhrofiadau ein gilydd - boed lawen neu thrist. Mae yna groeso twymgalon i bawb ymuno â ni mewn unrhyw un o'r cyfarfodydd, ac os am ragor o wybodaeth gallwch gysylltu â'r Ysgrifennydd, Bethan Jones (ffôn: 223657) neu'r Gweinidog, Y Parchg. Ieuan Davies (ffôn: 763251).

**Bethan Jones**

## GWEINIDOG NEWYDD

Y Parchedig D. Haydn Thomas, gweinidog Salem, Treganna a Holy Trinity, Y Barri, yw bugail newydd Eglwys Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina. Cyflwynwyd ef i aelodau Bethel yn ystod gwasanaeth arbennig, 10 Medi, gan y Parchedig Pamela Cram, Arolygydd Cylchdaith Morgannwg o'r Eglwys Fethodistaidd a chan Mr Richard Hall Williams ar ran Salem a Mr Gareth Howe ar ran Holy Trinity. Ac fe gafodd groeso brwd gan Mr Eifion Hopwood ar ran aelodau a chyfeillion Bethel. Apeliodd Mr Hopwood am fwy o gefnogaeth i Fethel gan Gymry Rhiwbina ac ardaloedd eraill gogledd Caerdydd.

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd rhodd i Mrs Tamsin Llwyd Graves i gydnabod ei gwaith ym Methel ers rhai blynyddoedd - yn arbennig gyda'r ifainc.

## BETHEL, RHIWBINA

Wythnos gyntaf Medi bu Bethel yn rhan o weithgareddau Cenhadaeth "Share Jesus" a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a rhannau eraill o'r De gan yr Eglwys Fethodistaidd. Cafwyd cymorth y Parchedig John Barnett, Llanelwy gyda'r gweithgareddau. Mrs Tamsin Llwyd Graves a drefnodd y gwasanaeth ar ddechrau'r wythnos yn ogystal â'r diwrnod i'r ieuenctid a hi hefyd fu'n gofalu am y rhannau Cymraeg yn yr oedfa arbennig a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant.

Ganol Medi cafwyd cyngerdd ardderchog ym Methel gan Gôr Plant Caerdydd dan arweiniad Mrs Mair Robins gyda Mrs Sandra Semmens yn cyfeilio. Yr unawdwyr oedd Rhodri Llwyd a Trystan Francis. Bydd y £210 a dderbyniwyd mewn casgliad ar ddiwedd y cyngerdd yn cael ei anfon i BOBATH Cymru.

Llongyfarchiadau i Sally a Cliff Jones, Rhiwbina, ar ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol, a dymuniadau gorau i Mrs Mair Laugharne a Mr Lyn Jenkins a briodwyd ym Methel fis Awst.

## Draw draw yng Nghymru . . .

*Ychydig yn ôl bu Bashkar Rao, brodor o'r India sy'n gweithio fel cenhadwr yng Nghaerdydd, yn siarad â Chlwb Pobl Ifainc yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg. Dyma aelod o'r clwb, **Dafydd Elis**, i grynhoi'r hanes a glywsant am y ffordd y trodd at Grist:*

Yn grefyddol ac yn gymdeithasol, roedd Bashkar Rao yn y safle uchaf y gallai unrhyw Hindw ei gyrraedd. Ganed ef yn fachgen yn yr adran uchaf o'r cast uchaf o'r grefydd Hindwaidd. Er pan oedd yn blentyn ifanc iawn dywedai ei rieni wrtho ei fod wedi bod yn greadur da iawn yn ei fywyd diwethaf gan ei fod wedi dod yn ôl mewn safle mor uchel.

Er hyn, nid oedd Bashkar yn hapus. Cred yr Hindwiaid fod pawb yn cael eu hailymgnawdoli 8,400,000 o weithiau. Sylweddolodd gan ei fod ar frig y system y byddai'n rhaid iddo fynd i lawr yn ystod ei fywyd nesaf. Ei unig ddymuniad tan ei fod yn bedair ar bymtheg oed oedd cael bywyd tragwyddol.

Un dydd Sadwrn, yn ystod ail flwyddyn ei gwrs BSc, eisteddodd o flaen oddeutu dwsin o ddelwau o dduwiau Hindwaidd. Gweddïodd yn daer arnynt i roi bywyd tragwyddol iddo gan ddweud y byddai'n ei ladd ei hun pe na bai'n cael ei ddymuniad yn ystod y nos. Gobeithiai y byddai'r duwiau yn cael braw o feddwl bod dyn mor wych yn mynd i farw!

Ni chysgodd drwy'r noson honno, a phan ddaeth y bore nid oedd wedi gweld na chlywed dim. Arhosodd drwy'r dydd, a phan ddaeth yn nos, paratôdd fwyd wedi ei wenwyno. Nid oedd am gyflawni hunanladdiad, ond roedd wedi addo i'r duwiau, ac roedd yn well ganddo farw na dweud celwydd wrthynt hwy.

Penderfynodd fynd am dro wrth iddi dywyllu cyn bwyta'r bwyd. Gadawodd ei ystafell a dechrau cerdded. Wrth iddo fynd, cyfarfu ag Athro Swoleg yn y Brifysgol. Gwahoddodd ef i gyfarfod Cristnogol. Nid oedd Bashkar am fynd yn ôl i'w ystafell i farw, felly cytunodd i fynd gyda'r Athro.

Yn y cyfarfod hwn, clywodd rywbeth hollol newydd iddo. Clywodd y geiriau, 'Cred yn yr Arglwydd Iesu, a chadwedig fyddi' (Actau 16:31). Geiriau pendant, sicr, hollol wahanol i'r Hindwaeth ansicr y magwyd ef ynddi. Ar ôl y cyfarfod, gweddïodd Bashkar ar yr Arglwydd Iesu Grist am y tro cyntaf yn ei fywyd. Er nad oedd erioed wedi clywed am *Taith y Pererin*, cofia deimlo bod baich trwm wedi disgyn oddi ar ei ysgwyddau.

Mae hanes Bashkar Rao yn enghraifft drawiadol o Dduw yn gweithio mewn sefyllfa hollol annisgwyl. Mae hefyd yn ein hatgoffa bod yr ateb syml i'r cwestiwn 'Beth sydd rhaid i mi ei wneud i gael bywyd tragwyddol?' mewn un frawddeg yn Actau 16:31.

**Dafydd Elis**



### Priodas Hapus

Yn ystod gwyliau'r haf prodwyd y Parchedig Beti-Wyn, gweinidog Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, a Mr Philip James, un o aelodau'r eglwys. Dymuna'r *Dinesydd* bob hapusrwydd iddynt.

# YSGOL GLANTAF

## KENYA '98

Yr haf nesaf bydd 26 o ddisgyblion y chweched dosbarth a dau athro, Mr Gareth Norton a Miss Meleri Jones yn mynd ar daith i Kenya, gyda'r mudiad 'World Challenge'.

Bydd y daith yn para mis ac yn ystod eu hymweliad mae'r disgyblion yn gobeithio dringo Mount Kenya, gweithio mewn ysgol a mynd ar saffari. Yn ystod y flwyddyn bydd y disgyblion yn gweithio'n frwd yn paratoi a chasglu arian at y fenter.

## BIVY AR Y BANNAU

"Cysgu mewn sach, yn yr awyr agored ar ochr mynydd? Dim diolch!" Dyna oedd agwedd y rhan fwyaf ohonom wrth glywed am y dasg oedd o'n blaenau. Ond er gwaethaf ein holl ofidion gwnaeth dau ar hugain ohonom yn ogystal â phum athro ymgasglu yn brydlon am wyth o'r gloch nos Wener. Pwrpas y noswaith oedd ceisio goroesi ar ein pennau ein hunain yn y mynyddoedd fel rhan o'n paratoadau ar gyfer ein taith i Kenya, er fy mod i a phawb arall yn gwybod fod 'na wahaniaeth mawr rhwng Pen-y-fan a Kilimanjaro!

Dechreuodd hi nosi'n gyflym a phan welon ni law ysgafn yn cwympo ar flaen y bws mini roeddem yn gwybod y byddai'n noson i'w chofio. Doedd neb yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond Mr Norton... pwynt oedd yn peri gofid i Miss Jones a'i chyd-athrawon! Wedi dilyn arwyddion trywyddu, cwblhau ras rhwystrau, gwneud ein ffordd trwy hen dwnel rheilffordd, daeth yn amser i baratoi i gysgu. Hanner awr ar ôl ymladd â'r 'basher' (sef darn o ddefnydd dwrglos sy'n cael ei glymu i bedair coeden i'n hamddiffyn rhag y gwynt a'r glaw), a hithau'n bump o'r gloch y bore, roeddem yn barod i gysgu neu bendwmpian tan y wawr. Yr unig broblem oedd ein bod wedi llithro lawr y mynydd erbyn i ni ddihuno.

Trannoeth, er bod diwrnod o gerdded caled o'n blaen, nid prinder cwsg oedd yn fy mhoeni ond diffyg tŷ bach! Wrth lwc, mae Miss Meleri Wyn Jones yn hoff iawn o'i 'home comforts' ac fe lwyddodd un ar ddeg ohonom i ddianc i'r tai bach i lawr y ffordd yn y bws mini heb yn wybod i Mr Norton! Roedd y tywydd yn braf ddydd Sadwrn a gwelsom y Bannau yn eu holl ogoniant.

Roedd y penwythnos yn llwyddiant arbennig. Gwnaeth ein helpu i gyd-weithio fel grŵp a'n paratoi ar gyfer ein taith yr haf nesaf. Diolch i'r holl athrawon, yn enwedig Mr Norton am drefnu'r gweithgareddau. Rydym yn edrych ymlaen at y tro nesaf cyn belled ein bod o fewn cyrraedd yr 'home comforts'!

**Sara Roberts**

## NIA BEN AUR

Mae'r ymarferion a'r holl baratoi eisoes ar y gweill ar gyfer y tri pherfformiad ar 11, 12 a 13 Tachwedd, yn neuadd Ysgol Uchaf Glantaf. Lluniwyd y caneuon gwreiddiol, a gyfansoddwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin 1974, gan nifer o gyfansoddwyr e.e. Cleif Harpwood a Tecwyn Ifan. Mae nifer o ganeuon newydd wedi'u cyfansoddi gan Miss Delyth Medi Jones ar gyfer y cynhyrchiad arbennig yma a'r coreograffeg dan ofal Mrs Elspeth Huws. Doedd dim deialog yn y gwaith gwreiddiol, felly comisiynwyd Mrs Nia Hall Williams, wyres y bardd T. Gwynn Jones, i lunio sgript yn seiliedig ar ei gampwaith *Tir na n'Og*.



## Perfformiad o'r Oratorio 'Elias' gan Mendelssohn Sadwrn, 7 Tachwedd, 1998 yn Neuadd Dewi Sant

Fel rhan o ddathliadau 20fed pen-blwydd yr ysgol cynhelir perfformiad o'r gwaith yma yn Neuadd Dewi Sant gan gôr a cherddorfa'r ysgol o dan arweiniad Alun Guy. Bydd Côr yr ysgol yn cael ei chwyddo gan rieni, ffrindiau a chyn-ddisgyblion yr ysgol. Hefyd bydd Corau Philharmonig Caerdydd a Chasnewydd yn ymuno yn y côr unedig hwn. Bydd yr ymarferion yn dechrau ar ôl y Pasg 1998 - cewch fwy o fanylion yn y golofn hon maes o law. Bydd croeso i bawb sy'n awyddus i ymuno yn y dathlu.

## CYCLATHON GLANTAF

Cynhelir Cyclathon Glantaf yn flynyddol ac fel arfer mae tua chant o ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 13 yn cymryd rhan, gyda'r arian yn mynd tuag at yr elusen a enwebwyd gan y disgyblion am y flwyddyn honno.

Eleni roedd y drefn yn wahanol. Trefnwyd y daith gan aelodau o flwyddyn 12 sydd yn mynd ar y daith 'World Challenge' i Kenya yn haf '98. Noddwyd y beicwyr gan ffrindiau a pherthnasau er mwyn codi arian i brynu bwyd ac angenrheidiau eraill ar gyfer y daith.

Cychwynnodd y daith o Lantaf am 9.45 ar ôl i Rwena gyrraedd - braidd yn hwyr! Dilynwyd llwybr beicio Taf yr holl ffordd i Bontypridd. Roedd y tywydd a'r golygfeydd yn wych iawn. Cafwyd seibiant ym mharc Ynys Angharad, ac ar ôl llenwi'n boliau â sglodion a hufen iâ naw deg naw, cafwyd gwared ar y calorïau wrth seiclo nôl i'r ysgol. Diwrnod hyfryd a llwyddiannus eleni eto.

**Julie Morse**



### Hualau

Cadwyni, cadwyni,
Mor ddiflas ydi Cymru
Henffasiwn hualau
Yn dynn am ein gyddfau.

Y Gymdeithas annifyr
Yn peri shwt ddolur
I galon fradwrus
Llawn syniadau dirmygus.

Grym caeth yw y pwer
Y pwer a'm cadwer;
Carcharor anfodlon
Wyf i, ferch afradlon.

Dyma gerdd Gwenfair Michael a enillodd yr ail wobr yn y gystadleuaeth farddoniaeth Bl. 12 ac 13 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Melin Gruffydd

*Gwelodd y flwyddyn ysgol 1996-97 newidiadau mawr yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Ymddeolodd prifathro cyntaf yr ysgol, Mr Gareth Evans, ar ddiwedd 1996, a bu ei ddirprwy, Mrs Mair Robins, yn gweithredu fel pennaeth dros dro am gyfnod cyn cael ei phenodi'n brifathrawes. Ysgrifennodd un o blant yr ysgol,* ***Owain Williams,*** *yr ysgrif isod adeg ymddeoliad Mr Evans. Priodol yw ei chyhoeddi yn awr ar ddechrau blwyddyn ysgol lawn gyntaf Mrs Robins fel prifathrawes, gan ddymuno pob rhwyddineb iddi yn ei swydd newydd.*

### Atgofion Desg y Pennaeth

O, am lonyddwch! Mae'r Prifathro wedi fy nhacluso ac wedi gadael yr ystafell am y tro olaf eleni. Mae'r sioe drosodd, hynny yw sioe'r ysgol a sioe Mr Evans. Beth oedd sioe eleni 'ta beth? *Y Pibydd Brith*? O nage siŵr iawn, *Y Bos* wrth gwrs, teyrnged i Mr Evans. Ar ôl dwy flynedd ar bymtheg yn yr ysgol yma, Melin Gruffydd, mae'n haeddu ymddeol! Mae llawer o bethau wedi digwydd yn ystod ei yrfa ...

Rwy'n cofio cael fy nosbarthu i'r swyddfa yn 1983 a gweld yr hen ddesg yn cael ei llusgo allan. I ddweud y gwir, roeddwn i'n teimlo piti drosti. Erbyn hyn, roedd yr ysgol yn mynd o nerth i nerth, a'r berthynas rhwng Melin Gruffydd a'n hysgol gymdogol, Eglwys Wen wedi gwella.

Mae llawer o ymwelwyr diddorol wedi dod i'r swyddfa hon ac wedi sefyll neu eistedd o'm blaen. Pobl bwysig fel Arolygwyr ei Mawrhydi, yn canmol gwaith yr ysgol, a phobl bach yr un mor bwysig, sef y plant. O dro i dro, byddai cnoc nerfus wrth y drws a cherddai plentyn ofnus yr olwg i mewn, wedi cael stŵr mae'n amlwg. Byddai Mr Evans yn holi am y drygioni ac yna'n ceryddu. Cofiaf un bachgen yn cael ei hala at y prifathro am iddo wthio ei ffrind gorau i'r llacs a'r baw, fel y dywedai Mr Evans. "Y mwnci drwg," meddai. "Fe fydd dy fam a'th dad yn cael clywed am hyn!" gan ddod â'i ddwrn i lawr yn galed arnaf. Lwcus nad wyf yn cleisio!

Ond ambell waith, byddai'r plentyn a ddoi i mewn yn wên o glust i glust. Dod yma i gael canmoliaeth a wnâi. Byddai Mr Evans yn rhedeg trwy'r gwaith, ac yna'n ymestyn am stamp yr ysgol, yn sicrhau fod digon o inc arno, ac yna'n ei wasgu'n galed ar lyfr y plentyn, ac yn ei lofnodi fel petai'n seren o fri! Gallaf ddychmygu'r plentyn hwnnw yn rhuthro at ei fam ar ôl yr ysgol i gyhoeddi'r newydd da iddi. Am olygfa hyfryd!

Yna, o dro i dro deuai ryw dîm neu'i gilydd i mewn i'r swyddfa i ddangos tlws yr oeddent wedi ei hennill, neu i gyhoeddi canlyniad. Rwy'n cofio'r tîm cwis llyfrau'n dod ar ôl ennill cwpan mawr tlws, ond er mawr siom i mi, yn hytrach na'i osod arnaf fi, fe gododd Mr Evans a'i osod ar gwpwrdd hyll. Hy! Ond ar adeg arall, fe ddaeth y tîm criced oedd yn fuddugol i'r swyddfa ac fe osododd Mr Evans y tlws arnaf i!

Ar ôl y Nadolig bydd newid syfrdanol yn y swyddfa hon, gyda menyw, Mrs Robins yn dod yn bennaeth dros dro ar yr ysgol - er rwyf fi'n fawr obeithio y bydd hi'n derbyn y swydd yn barhaol. Fe fydd yn hyfryd cael arogl persawr drud yn llenwi'r ystafell, ond gobeithio na fydd hi'n gadael gweddillion ei chinio (mars bar, creision, brechdanau, pop a.y.y.b) arnaf. Pob lwc iddi. Iechyd da i'r pennaeth newydd!

**Owain Williams**, Blwyddyn 6
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

### Lleufer Plentyn - Llyfr Da!

Dros yr haf, derbyniwyd nifer sylweddol o lyfrau Cymraeg i blant yn Llyfrgell Pen-y-dre, Rhiwbina, ac estynnwyd y gweithgareddau arferol i blant ysgol yn ystod y gwyliau gan gynnwys sesiwn Gymraeg. Hefyd, cynhelir sesiwn 'amser stori' i blant dan bump oed bob dydd Mawrth rhwng 2.15 a 2.45 o'r gloch gydag egwyl tua diwedd mis Hydref. Am fwy o fanylion cysylltwch â Helen Price ar 693276.

### Casét newydd i blant

'Mr Haul' yw teitl casét newydd o ganeuon i blant a ryddhawyd gan gwmni Fflach. Derec Brown sy'n canu'r caneuon a fe hefyd sydd wedi cyfansoddi'r deuddeg cân hwyliog, sy'n cynnwys alaw i gerdd T. Llew Jones 'Fy ngharafan'.

Yn ymuno â Derec ar ganeuon fel 'Beti Moyn', 'Ar Ddihun' a 'Deinosor' mae Côr Ysgol Pen-cae, Caerdydd. Mae'r casét yn y siopau nawr.



Derec Brown a Chôr Ysgol Pen-cae, Caerdydd


### Greenslade a Gloria

Mae'r llun yn dangos David Greenslade o Bontcanna wrth iddo adrodd ei lyfr diweddaraf i blant a gyhoeddir gan wasg Y Lolfa, *Gloria a'r Berllan Bupur*. Lansiwyd y llyfr i gynulleidfa o blant gyda chymeriad teledu Bwgan Brain yn cynorthwyo.



# NEWYDDION YR URDD

# Gweithgareddau a gwibdeithiau





### Cwrs Pêl-rwyd yr Urdd
**Dydd Llun, 20 Hydref, 11.00yb - 3.30yp**
Canolfan Chwaraeon Cymru, Gerddi Soffia
Arweinydd profiadol. Cyfle i ymarfer sgiliau a chwarae gemau.
Croeso i ferched blynyddoedd 4, 5 a 6.



### Cwrs Pêl-fasged
**Dydd Iau, 23 Hydref, 11.00yb - 3.30yp**
Canolfan Chwaraeon Cymru, Gerddi Soffia
Cwrs yn cael ei redeg gan chwaraewr broffesiynol, Chris Harper, o Cardiff Phoenix.
Croeso i ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6.

### Diwrnod Merlota
**Dydd Iau, 23 Hydref yn Y Fenni.**
Cyfle i ferlota o amgylch cefn gwlad Y Fenni.
Bydd yr offer anghenrheidiol wedi'i darparu.
Croeso i ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6.



### Cwrs Pêl-droed
**Dydd Gwener, 24 Hydref**
Cyfle i ymarfer sgiliau, gemau 7 bob ochr, cystadlaethau a gwobrau.
Disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn y bore.
Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn y prynhawn.



### Trip i Granada Studios
**22 Hydref 1997**
Croeso i flynyddoedd 7 a 8 Glantaf.
Pris £17.00 (gan gynnwys bws, mynediad a pryd 2 gwrs yn Harry Ramsdens).



### Trip Pêl-droed ASTON VILLA V CHELSEA
**1 Tachwedd 1997**
Croeso i flynyddoedd 5, 6 a 7.
Pris £16.50 (gan gynnwys bws a mynediad).

## Cynllun Chwarae
**Hanner Tymor**
**Dydd Llun 20 - Gwener 24 Hydref, 1997**
**8.30yb-1.00yp neu 8.30yb-3.30yp.**
*Cyfle i blant goginio, chwarae ar y castell bownsi, gemau parasiwt, celf a chrefft, ymweliadau gan gonsurwyr.*

Am fanylion pellach, ffoniwch Siân Jobbins (01222 236201)

---

### PRYD O DAFOD ac ati
Mae S4C wedi darparu'n helaeth ar ein cyfer yn ystod tymor yr hydref, ac mae nifer o'n dinasyddion ymhlith y rhai sy'n darparu'r rhaglenni. Un ohonyn nhw yw *Pryd o Dafod.* Yn y llun isod gwelir Nia Roberts, Dudley Newbery a Nerys Howell wrthi'n paratoi rhywbeth i blesio'r tafod.



Mae Dudley'n un o gyn-ddisgyblion Ysgol Rhydfelen a chynhyrchir y rhaglen gan Paul Jones, pennaeth Cwmni Apollo, un arall o gyn-ddisgyblion Ysgol Rhydfelen. *Llun S4C*

**Llongyfarchion** cynhesaf i Menna Richards ar gael ei phenodi'n Gyfarwyddydd Rheoli HTV Cymru. Mae'r *Dinesydd* wedi dilyn Menna ar ei thaith o risiau isaf i risiau uchaf ysgol byd darlledu gyda diddordeb mawr. Gallwn deimlo'n hyderus na chaiff y Gymraeg ddioddef yn yr HTV 'newydd' gyda hi wrth y llyw. Llongyfarchion hefyd i Alun Jones ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid gyda'r un cwmni, ac Elis Owen ar gael ei benodi'n Rheolwr Rhaglenni, ac Iwan Brooks-Jones ar gael ei benodi'n Rheolwr Darlledu.

### Amser i Longyfarch



Llongyfarchion cynnes i Mrs Janet Davies, Treganna, ar gyhoeddi ei nofel Gymraeg gyntaf, *Amser i Gofio*, trwy Wasg Gomer yn ddiweddar. Nofel hanesyddol swmpus yw hon sy'n ymdrin â Dyffryn Wysg adeg codi'r gamlas yno a'r chwyldro diwydiannol ac mae wedi cael cryn ganmoliaeth gan yr adolygwyr. Dealla'r *Dinesydd* bod nofel arall Gymraeg ar y gweill gan Janet.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## CRICED

Ni fu'n rhaid pendroni ynglŷn â pha gamp fyddai gyntaf y tro hwn drannoeth yr ornest yn Taunton yn erbyn Gwlad yr Haf, lle'r enillwyd Tlws Pencampwriaeth Criced y Siroedd am y trydydd tro. Roedd hi'n amlwg pwy a enillai'r ornest honno ar ôl y diwrnod cyntaf pe byddai'r tywydd yn sych, ond ni chafwyd chwarae ar yr ail ddiwrnod tan ddeng munud i bedwar.

159 am 2 wiced oedd y sgôr ym matiad cyntaf Morgannwg ar ddiwedd y diwrnod cyntaf, ar ôl cael gwared ar Wlad yr Haf am 252 gan sicrhau'r pedwar pwynt. Bu partneriaeth o 117 rhwng Hugh Morris a Mathew Maynard, a phan ailgydiwyd ynddi ar y dydd Iau aeth y partneriaeth i 235 cyn i'r capten golli ei wiced am 142 (28 o bedwarau ac un 6).

Batiad clasurol o'r safon uchaf oedd y 142, ac yr oedd y gwylwyr yn ei roi ar yr un gwastad â batio Viv Richards pan oedd ef yn chwarae dros Wlad yr Haf ar yr un maes. Câi'r bowlwyr - Caddick yn enwedig - drafferth ar y ddaear wleb, ond gan fod pum golau ynghyn ar y bwrdd sgorio am gyfnod hir nid oedd yr amgylchiadau ar ochr y batwyr. Pryd y byddai Maynard yn cau'r batiad ar y Sadwrn? Nid oedd yn rhaid iddo bendroni uwchben ei benderfyniad, gan fod y batio'n hen ddigon cyflym cyn cinio a chyrhaeddwyd 526 mewn 99.4 o belawdau'n unig (Hugh Morris 165 - 28 pedwar, a Robert Croft 3 chwech yn ei 86). Cyrhaeddodd Gwlad yr Haf 275 gan adael 11 rhediad i Forgannwg eu sgorio yn eu hail fatiad; sgoriodd Steve James 10, Hugh Morris 1 ac yr oedd un heibiad coes - Y TLWS! cyn diwedd y trydydd diwrnod. Ar y Sadwrn ni chafodd Waqar Younis yr un wiced, ond disgleiriodd y Cymro ifanc, Darren Thomas, wrth gymryd pump, a dyna gricedwr llawn addewid. Batiodd yn gampus ar adegau ac yr oedd sawl pelen a fowliodd yn drech na'r batiwr gorau. Caiff ddyfodol ardderchog yn ddiau.

Gyda'i gant yn Taunton cyrhaeddodd Morris 52 gant i ddod yn gyfartal â record Alan Jones (1957-1983), a dechreuodd gyrfa Hugh gyda'r Sir yn 1981, a chan mai 34 oed ydyw mae ganddo bedwar neu bum tymor ar ôl i ychwanegu'n sylweddol at y cyfanswm hwn.

Sgoriodd Steve James (30 oed), a anwyd yn Lydney, Swydd Gaerloyw, 7 cant a gorffen y tymor ar ben rhestr fatio'r Bencampwriaeth, a Mathew Maynard 3 chant.

Ganwyd y capten yn Oldham yn 1966, ond fe'i haddysgwyd yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Môn - hen dro na fedr y Gymraeg yn rhugl. O'r un ar ddeg a chwaraeodd yn yr ornest olaf, ganed chwech ohonynt yng Nghymru, ac mai dau o'r rheiny'n rhugl yn y Gymraeg, sef Croft a Cottey, ac mae Steven Llywelyn Watkin yn medru rhywfaint ohoni.

Gwelais i Forgannwg yn ennill y Bencampwriaeth am yr ail dro yn 1969 pan oedd Tony Lewis yn gapten, ond ni chredaf y bydd yn rhaid aros cyhyd cyn i'r Tlws ddod i Gaerdydd am y pedwerydd tro. Mae'r gyfundrefn ar sail gadarn trwy'r wlad bellach, ac fe gaiff holl ieuenctid y genedl gyfle i chwarae dros Forgannwg - dros eu gwlad felly, gan mai Cymru yw Morgannwg ar y llain griced.

## Y BÊL HIR



Siomedig iawn oedd dechrau Cwpan y Cwrw (Heineken) ym mis Medi, ond rhaid llongyfarch Pontypridd ar chwarae cystal gartref yn erbyn Caerfaddon, ac oddi cartref yn Ffrainc yn erbyn Brive. Do, chwaraeasant yn ardderchog ond collasant y ddwy ornest am i'r ddau ddyfarnwr, Gwyddel ac Albanwr, ganiatàu i'w gwrthwynebwyr sgorio ceisiadau na ddylasid eu caniatàu.

Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn yr oeddwn i'n disgwyl yn eiddgar am yr ornest yn Heol Sardis yn erbyn Brive ar ôl popeth a ddigwyddodd ar y cae ac yn y dafarn ar ei hôl yn Ffrainc. Roedd siom arall hefyd bythefnos ar ôl Brive pan gollodd Caerdydd gartref i'r Harlequins, er i Gymro gyfrannu'n sylweddol tuag at fuddugoliaeth y clwb o Lundain. Huw Harries a'i faswr, Thierry Lacroix, a saernïodd y fuddugoliaeth. Pum Sais yn unig oedd yn nhîm yr Harlequins ar ddechrau'r ornest; roedd y lleill o Tonga, Ffrainc, Yr Eidal, Taleithiau Unedig America, Iwerddon (y capten, Keith Wood) a Chymru (Huw Harries a Gareth Llywelyn).

Trueni i Gaerdydd golli - o dri chais i ddim - ond ni ddymunwn weld unrhyw dîm o Gymru â dau draean o'u chwaraewyr yn dod o wledydd eraill. Beth am ddychwelyd at rygbi amatur - ar wastad rhyngwladol hefyd?

## HWB I LEDU GAIR O GYMRAEG

Mae'r 'Cyngor Addysg Amgylcheddol yng Nghymru', sydd â'i swyddfa yng Nghaerdydd, ymysg yr amryw gyrff sydd newydd dderbyn Grant Bach oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynhyrchu eu deunyddiau cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg. Mae'r nifer o geisiadau am grant yn dal i gynyddu, wrth i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru sylweddoli fod yna alw cynyddol - a disgwyl - iddynt gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Dywedodd Guto Owen, Cyfarwyddwr y 'Cyngor Addysg Amgylcheddol yng Nghymru': "Rŷ'n ni'n gorff newydd ac yn awyddus i gynhyrchu ein taflenni hyrwyddo yn ddwyieithiog o'r cychwyn un ac fe fydd grant y Bwrdd yn gymorth sylweddol i ni allu cyflawni hyn."



Nid cwmnïau yng Nghymru yn unig sydd wedi manteisio ar y Grantiau Bach yma ychwaith: mae elusen Sustrans ym Mryste wedi derbyn nawdd ar gyfer cynhyrchu map o'r llwybrau beicio sy'n rhedeg rhwng Caerdydd a Chaernarfon: "Efallai nad ydym wedi ein lleoli yng Nghymru", dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol Ben Hamilton-Baillie, "ond mae Llwybr Beicio Cenedlaethol Cymru yn rhan o'r Llwybr Beicio Cenedlaethol ac rydym yn ymwybodol o'r angen am fersiwn Cymraeg o'r map i ateb gofynion siaradwyr Cymraeg".

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnig talu hyd at 50% o gostau cynhyrchu pamffledi, taflenni ac arwyddion dwyieithiog hyd at uchafswm o £500. Am fanylion pellach ar sut i gynnig am grant, cysylltwch ag Adran Grantiau'r Bwrdd ar (01222) 224744.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Erbyn hyn dylech chi fod wedi dechrau yn ôl yn eich dosbarthiadau unwaith eto. Cofiwch ddefnyddio eich Cymraeg trwy'r amser, yn arbennig y tu allan i'r dosbarth. Os ydych chi'n gweld aelod o staff mewn siop yn gwisgo bathodyn 'Cymraeg' siaradwch â'r person yna yn Gymraeg a chofiwch fynd i nosweithiau cymdeithasol ac Ysgolion Undydd. Bydd y tudalen hwn yn rhoi gwybod i chi am bethau sy'n digwydd yn yr ardal ond os oes unrhyw syniadau gyda chi am weithgareddau sydd ddim yn cael eu trefnu ar hyn o bryd, cysylltwch â fi ar 01222 486469.

## Gŵyl ? Pa Ŵyl?

Faint ohonoch chi oedd wedi dathlu un o'n gwyliau Cymreig pwysicaf y mis diwethaf? Faint ohonoch chi oedd yn gwybod bod 16 Medi yn ddyddiad pwysig i ni yng Nghymru?

Mae'n drist bod cyn lleied ohonon ni yng Nghymru yn dathlu neu hyd yn oed yn gwybod mai 16 Medi yw Dydd Owain Glyndŵr. Rwy'n siŵr eich bod chi wedi clywed amdano fe ond pwy oedd Owain?

Cafodd Owain ei eni naill ai yn 1349 neu 1359 yn ôl pob tebyg yn Nhrefgarn, Sir Benfro, yn fab i Gruffydd ap Fychan, Arglwydd Glyndyfrdwy, ger Llangollen.

Astudiodd Owain y gyfraith yn Llundain cyn mynd yn filwr cyflog. Bu e'n ymladd gyda'r Brenin Richard II mewn brwydrau yn yr Alban ac efallai Iwerddon.

Ond cipiodd Reginald de Grey, Arglwydd Rhuthun, ran o diroedd Owain yn ymylu ar ystâd Rhuthun. Oherwydd y ddadl yma a'i driniaeth annheg gan y Saeson roedd Owain a Chymry pwysig eraill wedi cyfarfod ar 16 Medi 1400 a chyhoeddodd y grŵp fod Owain yn Dywysog Cymru. Ar 18 Medi ymosododd dynion Owain ar Ruthun a llosgi'r dref. Roedd y rhyfel am annibyniaeth wedi dechrau.

Sefydlodd Owain Senedd ym Machynlleth ac am beth amser fe oedd Tywysog Cymru. Roedd yr ymladd rhwng y Cymry a'r Saeson yn parhau ond erbyn 1408 roedd Owain wedi colli castell Aberystwyth ac yn 1413 cynigiodd y Saeson bardwn iddo. Gwrthododd Owain ddwywaith. Diflannodd e o'r golwg ym 1413 ond ni fradychwyd e gan y Cymry. Bu e farw yn ôl pob tebyg yn Swydd Henffordd ym 1425 yng nghartref ei ferch ond does neb yn gwybod yn iawn. Hyd heddiw mae Owain yn symbol bwerus iawn ym meddyliau llawer iawn o bobl sydd am weld Senedd yng Nghymru.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Iau** 9.15pm | Siawns i gael peint (neu sudd oren os ydych chi'n gyrru) a siarad llawer o Gymraeg (gobeithio)! Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*), Heol y Plwca (*City Road*). |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN: cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch Rhun ar 01222 665455 am fanylion. |

## Rhoi tân yn eich clogs

Disgrifiodd I. D. Hooson symudiadau'r daffodil fel rhywbeth "Yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw i bibau pêr rhyw gerddor cudd". Ond os gofynnwch chi i unrhyw aelod o Gwmni Dawns Werin Caerdydd am eu barn am sain pibau neu fagbibau cewch pob math o atebion ond bydd y gair pêr ddim yn agos i'w gwefusau.

Ddechrau mis Awst aeth criw o 54 o ddawnswyr i Lorient ar arfordir deheuol Llydaw i gynrychioli Cymru yn yr ŵyl ryng-Geltaidd. Dyma'r tro cyntaf ers pymtheng mlynedd i ni fynychu'r ŵyl, buan y daethom i sylweddoli beth oedd anfantais mwya'r Ŵyl. Y pibau, y pibau a'r bagbigau, roeddent ym mhobman, yn atseinio trwy'r dre o fore gwyn tan nos.

Wrth i ni aros am yr orymdaith fawr fore Sul cyntaf yr Ŵyl roedd hi fel petaem yn sefyll wrth droed tŵr Babel cerddorol, gyda'r pibau o bob gwlad Geltaidd (ond Cymru) yn cystadlu â'i gilydd. Wedi aros ein tro am ryw awr a hanner cyn dechrau'n ffordd ar yr orymdaith, ac yn y cyfamser dod o hyd i Ffrancwr yn un o'r bandiau o Baris a oedd wedi dysgu Cymraeg, dyma ni ar ein ffordd i ganol môr o wynebau a derbyn croeso hynod o gynnes a fydd yn aros yn y cof. A pleser o'r mwya oedd clywed ambell gyfarchiad yn Gymraeg gan roi hwb ychwanegol i'r cam a'r naid wrth i ni ddawnsio o flaen y dorf o 50,000.

Roedd 1997 yn flwyddyn arbennig yn yr ŵyl gan mai blwyddyn Cymru ydoedd. Cawsom y fraint o berfformio am bedair noson yn y Nuit Magique ar lwyfan sydd ddwywaith maint llwyfan yr Eisteddfod ac o flaen torfeydd o 8000 o bobl. Roedd y nosweithiau hyn wedi eu trefnu'n ofalus gyda goleuadau llachar yn taflu lluniau lliwgar o'r gwledydd Celtaidd ar sgrîn enfawr y tu cefn i'r llwyfan a thân gwyllt neu pyrotechnique yn chwarae lle amlwg yn ystod y diweddglo, yn rhy amlwg o lawer i rai ohonom.

Er mai blwyddyn Cymru ydoedd mae'n deg dweud mai diwylliant Iwerddon oedd yn cael blaenoriaeth a hynny efallai am mai Guiness a Kilkenny oedd rhai o'r noddwyr mwyaf. Beth bynnag cafwyd amser hwylus dros ben yn dawnsio yn y gwres llethol, yn ymweld â'r traeth a'r rhesi cerrig yn Carnac. Os ydych chi am deithio i Rwsia, Siapan, America yn ogystal â Llydaw a chyfandir Ewrop, wel anghofiwch am y lluoedd arfog a gwisgwch eich sgidie dawnsio a rhowch hwb i'ch bywyd cymdeithasol.

**Andrew Bartholomew**



CBAC
WJEC

Y SIOP LYFRAU

## FYDDWCH CHI'N DILYN CWRS TGAU NEU SAFON UWCH ELENI?

- Cyn-bapurau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol
- Atebion enghreifftiol
- Meysydd llafur
- Llyfrau gosod ac arweinlyfrau
- Canolfan Adnoddau Ewropeaidd **NEWYDD**
- Adnoddau i ddysgwyr
- Llyfrau darllen i blant a phobl ifanc

***Galwch heibio'r Siop Lyfrau ar ei newydd wedd***

Ar agor: Llun - Gwener
9.00am - 5.00pm

*245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd CF5 2YX*
*(gyferbyn ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)*

## J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY

# A ydych chi wedi cael **damwain?**

# Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

# Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas

01222 - 666222

## CYLCH MEITHRIN PENTREBAEN

**Mae angen arweinyddes i'r Cylch uchod yng Nghaerdydd. Mae brwdfrydedd a phrofiad yn hanfodol. Tâl da. Ffoniwch am sgwrs anffurfiol.**

Rhifau Ffôn:

01222 303213 / 258413 neu 309661

## GWERSI MATHEMATEG

**Cynigir gwersi Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg gan Fathemategwr sydd â phrofiad o ddysgu Lefel 'A' a TGAU.**

Cysylltwch â

Huw Jones ar 01222 394293.

# GWAHODDIAD

Ar Dachwedd 9fed a'r 10fed fe fydd Teledu Avanti Cyf. yn recordio dwy gyngerdd arbennig yn Neuadd Dewi Sant ar gyfer y gyfres boblogaidd, **GWAHODDIAD**, ar gyfer S4C

*Cynigir tocynnau wedi eu darostwng i ddarllenwyr **Y Dinesydd***

## NOSON ADLONIANT

**Nos Sul, Tachwedd y 9fed. 7.30 p.m.**

Corau Meibion o benbaladr yn canu caneuon ysgafn i gyfeiliant cyfoes Mal Pope a'i fand. Cyflwynydd y noson fydd Alwyn Humphreys. Ymhlith y corau fydd yn ymddangos, Côr Meibion Caernarfon, Maesteg, Gleemen, Côr Meibion y Mynydd Du, a llawer mwy.

*Tocynnau. Pris arbennig i ddarllenwyr Y Dinesydd - £3.75*

## NOSON GLASUROL

**Nos Lun, Tachwedd y 10fed.**

Uchafbwynt y gyfres fydd Côr Gwahoddiad a dau unawdydd rhyngwladol yn canu gweithiau mawr y byd opera, emynau a chaneuon gwerin Cymreig dan arweiniad Carlo Rizzi a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru.

*Tocynnau. Pris Arbennig - £6.00*

**Dwy noson o gerddoriaeth dosbarth cyntaf i'w cofio**

***Gellir archebu tocynnau drwy ffonio'n uniongyrchol, 01222 520528, neu ffonio swyddfa docynnau Neuadd Dewi Sant 01222 878444 gan nodi'r cyfeirnod SONG.***

Avanti



HELIWR



Y CLWB RYGBI



CEFN GWLAD

# Lliwiau Llachar yr Hydref



Y PALMANT AUR



OS BYW AC IACH



PENBLWYDD HAPUS

Mae holl liw a llun yr hydref i'w gweld ar S4C y tymor hwn wrth i'r newydd a'r cyfarwydd gyfuno i lunio amserlen amrywiol sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb. Ymysg yr uchafbwyntiau - Philip Madoc yn dychwelyd mewn cyfres newydd o'r ddrama gyffrous, Heliwr. Ac mae pethau'n sicr o fynd yn draed moch yng nghyfres gomedi newydd Ifan Gruffydd, Os Byw Ac Iach. Dim ond rhagflas o'r hyn sydd i ddod ar S4C yr hydref hwn...

www.s4c.co.uk

S4C